# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Ebrill 2002 i'w hateb ar 16 Ebrill 2002

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y tollau a godir ar fewnforion dur i UDA. (OAQ16820)

**2. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa dargedau yr ydych wedi eu pennu ar gyfer Iechyd, Addysg a Thrafnidiaeth i'w cyflawni dros y 12 mis nesaf. (OAQ16821)

**3. Alison Halford (Delyn);** Faint o faterion neu ddarnau o wybodaeth a ryddhawyd gan neu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Aelodau unigol o'r Cabinet, a gafodd eu hystyried yn 'sensitif yn fasnachol' neu'n 'gyfrinachol yn fasnachol' ers i Brif Weinidog Cymru wneud datganiad ar ryddid gwybodaeth ym mis Mawrth 2000. (OAQ16836)

**4. Delyth Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar fesurau i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol yng Nghymru. (OAQ16809)

**5. Gwenda Thomas (Castell-nedd);** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru. (OAQ16814)

**6. Geraint Davies (Rhondda);** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydlynu polisïau'r Cynulliad er mwyn sicrhau ffyniant tymor hir i Gymoedd De Cymru. (OAQ16826)

**7. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ba drafodaethau y mae wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru dros y tri mis diwethaf ynghylch trosglwyddo rhagor o swyddogaethau o San Steffan i'r Cynulliad Cenedlaethol (OAQ16823)

**8. Janice Gregory (Ogwr);** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw adborth ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ganiatáu i bensiynwyr a phobl anabl yng Nghymru deithio am ddim ar fysiau ers i'r polisi ddod i rym yn gynharach y mis hwn. (OAQ16835)

**9. David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch Cymorth y Cynulliad i Awdurdod Heddlu De Cymru. (OAQ16834)

**10. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y meini prawf a ddefnyddir gan ei weinyddiaeth i nodi is-ddeddfwriaeth a fydd yn destun y weithdrefn estynedig. (OAQ16812)

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar effeithiolrwydd Cod Ymddygiad y Gweinidogion ers iddo gael ei gyflwyno. (OAQ16829)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Sut y mae'r Prif Weinidog yn monitro'r berthynas rhwng ei gyd-Weinidogion a chyrff allanol. (OAQ16827)

**13. Brian Hancock (Islwyn);** Sut y mae polisïau Llywodraeth Cymru wedi bod o fudd i Ddwyrain De Cymru. (OAQ16828)

**14. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â Changhellor y Trysorlys ar effaith y Gyllideb arfaethedig ar Gymru. (OAQ16811)

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'r Swyddfa Bost ynghylch datblygu'r Universal Bank. (OAQ16815)